



**British
Waterways
Dyfrffyrdd
Prydain**

DATHLU EIN CAMLESI A’N HAFONYDD 1948-2011

TRAWSNEWID DYFRFFYRDD PRYDAIN I STATWS ELUSENNOL

TU MEWN

**O WLADOLI I’R MILENIWM NEWYDD – SIWRNE DDADLENNOL
Y DYFODOL - ELUSEN DYFRFFYRDD NEWYDD**

Y FFEITHIAU

Mae gwirfoddolwyr yn rhoi dros
24,000 diwrnod
i Ddyfrffyrdd Prydain bob blwyddyn

Mae **91%** o bobl yn credu
bod dyfrffyrdd yn rhan bwysig o dreftadaeth y genedl

Mae **mwyastron gychod** ar y rhwydwaith
na phan oedd y Chwyldro Diwydiannol ar ei anterth

Mae’r dyfrffyrdd yn gartref i’r drydedd ystad fwyaf o strwythurau
rhestredig (dim ond Eglwys Loegr a’r Ymddiriedolaeth
Genedlaethol sy’n gofalu am fwy)

Mae **200 milltir** o gamlesi newydd neu gamlesi wedi’u hadfer wedi
agor yn y degawd diwethaf - y tro cyntaf i’r rhwydwaith dyfu ers canol y
19eg Ganrif

Mae camlesi, afonydd, cronfeydd a dociau Dyfrffyrdd Prydain yn
cynhyrchu gwerth **£500 miliwn** o fudd cyhoeddus bob blwyddyn

Mae **13 miliwn o bobl** yn ymweld
â’u dyfrffyrdd lleol yn rheolaidd – sef chwarter
o holl oedolion y DU

Mae'r dyfrffyrdd yn cefnogi **23,000 o swyddi**

Cannoedd

Mae camlesi'n gynefin i blanhigion ac anifeiliaid, ac yn hafan i gannoedd o safleoedd cadwraeth bywyd gwyllt ac i ddwsinau o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

DADENI'R DYFRFFYRDD

Y camlesi a'r afonydd Sioraidd sy'n cysylltu ein trefi a'n dinasoedd oedd y prif lwybrau trafndiaeth a wnaeth Prydain yn genedl ddiwydiannol arloesol.

O'r dogfennau helaeth am eu dirywiad a'u dadfeiliad, mae hanes y chwe deg mlynedd diwethaf ers gwladoli'r dyfrffyrdd yn dangos beth y gellir ei gyflawni pan fo cymuned yn gwerthfawrogi ei dyfrffyrdd ac yn buddsoddi ynddynt.

Dylai pawb sydd â diddordeb yn y dyfrffyrdd – y rhai sy'n gofalu amdanynt, y rhai y mae eu bywoliaeth yn dibynnu arnynt, y rhai sy'n eu mwynhau ac yn enwedig y rhai sydd wedi eu cefnogi doed a ddelo – fod yn falch iawn o'r hyn maen nhw wedi ei gyflawni.

Gan adeiladu ar y dadeni hwn yn hanes y dyfrffyrdd, yn 2012 bydd elusen newydd yng Nghymru a Lloegr yn cynrychioli'r dyfrffyrdd a bydd cyfraniad y gymuned yn ganolog i'w hegwyddorion sylfaenol.

Bydd cyfraniad y bobl sy'n defnyddio ac yn mwynhau'r rhwydwaith yn hanfodol er mwyn helpu i sicrhau bod y trysor cenedlaethol rhagorol hwn yn cael y gofal priodol, gan ddatgloi'r potensial o'i wneud yn hafan i bobl a bywyd gwyllt, yn gatalydd ar gyfer adfywio a masnach ac yn gymorth i liniaru newid yn yr hinsawdd.

Dyfrffyrdd Prydain sydd wedi cynllunio'r newid sylfaenol hwn i'r ffordd o ofalu am ein dyfrffyrdd, ac mae wedi ennill cefnogaeth gan randdeiliaid a gwleidyddion o bob plaid. Aeth 250 o flynyddoedd heibio ers adeiladu'r rhwydwaith dyfrffyrdd cyntaf, ac yn y dyfodol rydym yn gobeithio dod â'r holl bobl sy'n frwd dros y dyfrffyrdd ynghyd mewn elusen newydd sydd â nodau cyffredin a diben cyffredin sef diogelu ein camlesi a'n hafonydd gwerthfawr am y 250 mlynedd nesaf.

Tony Hales

Cadeirydd Dyfrffyrdd Prydain a Chadeirydd Ymddiriedolwyr yr Elusen Dyfrffyrdd Newydd

O WLADOLI I'R MILENIWM NEWYDD

- SIWRNE DDADLENNOL

Mae stori'r Dyfrffyrdd yn yr 20fed ganrif yn stori o ailddarganfod. Daeth dyddiau'r camlesi a'r afonydd fel rhwydwaith i gludo nwyddau i ben gan esgor ar gyfnod newydd yn eu hanes ym maes hamdden ac adloniant. Mae'n stori ddifyr am gefnogwyr brwdfrydig, ac am gymunedau a'r llywodraeth yn ailddarganfod gwerth y dyfrffyrdd.

1940au

GWLADOLI

> Bu cynnydd yn y defnydd o'r camlesi i gludo nwyddau gyda'r rhwydwaith bregus yn ceisio gwasanaethu ymdrechion y rhyfel. Ond ar ôl y rhyfel, daeth segurdod a diffyg priodoldeb i'w bygwth.

> Ym 1948, heb fawr o bwysu a mesur, daeth y camlesi dan berchnogaeth y cyhoedd fel rhan o'r Comisiwn Trafnidiaeth Prydeinig newydd, gydag un swyddog yn gofyn:

"O, ydyn ni'n cael y camlesi hefyd?"

> Serch hynny, mae pobl yn dal i gefnogi'r camlesi. Mae'r Gymdeithas Dyfrffyrdd Mewndirol newydd, a ffurfiwyd ym 1946, yn lobbio'r llywodraeth dros achub y rhwydwaith o gamlesi sy'n prysur ddiflannu - gan bwysleisio eu potensial o ran hamdden.

1950au

LLWYBRAU MASNACH YN DIRYWIO

> Mae llawer o gamlesi yn dadfeilio gan nad oes fawr o bosibiliadau i'w defnyddio at ddibenion eraill

-mae arolwg y llywodraeth yn dangos hyn gan nad oes marchnad i eiddo ar lan dyfrffyrdd amhoblogaidd sydd wedi dirywio

> Er bod digon o bobl yn barod i dramwyo'r camlesi am hwyl, yn ôl cylchgrawn staff dyfrffyrdd yn 1958 nid yw hyn 'yn golygu cynnydd sylweddol mewn incwm a dylai'n holl ymdrechion, bob amser, ganolbwyntio ar sicrhau traffig masnachol'

> Effeithiodd twf y rheilffyrdd a thrafnidiaeth y ffyrdd ar lwybrau masnach ar y camlesi, ond daeth dirywiad pellach pan agorwyd y traffyrdd cyntaf

1960au

BYWYD NEWYDD AR ÔL GAEAF CALED

> Daeth camlesi segur yn destun jôc mewn cylchgronau ysgafn fel Beano. Dechreuodd awdurdodau lleol yn Glasgow a Manceinion lenwi'r camlesi â deunydd gan eu bod yn eu hystyried yn berygl i ddiogelwch y cyhoedd

> Cafodd Dyfrffyrdd Prydain ei greu dan Ddeddf Trafnidiaeth '62 i reoli llawer o ddyfrffyrdd mewndirol y genedl ond bu'r gaeaf caled, a'r cychod yn methu symud rhwng y Nadolig a mis Mawrth, yn ddigon i roi'r hoelen yn arch y rhwydwaith masnachol ar y camlesi

> Cafwyd erthygl yn y Daily Mirror yn 1967 dan y teitl 'The Wasted Heritage' i dynnu sylw at drafferthion y camlesi segur gan arwain at ...

> Deddf Trafnidiaeth 1968 Barbara Castle, sy'n rhoi'r gydnabyddiaeth swyddogol gyntaf i werth y dyfrffyrdd ym maes hamdden gan ddarparu cylch gwaith i ddatblygu eu posibiliadau

1970au

CYFNOD O SEGURDOD MAWR

> Mae diffyg arian tymor hir yn parhau'n ffordd o fyw i'r dyfrffyrdd. Er hynny, daw pobl frwdfrydig ynghyd i dynnu fframiau gwely, pwyntio'r gwaith brics a chymysgu concriid. Er nad yw'n ffordd ffasiynol o dreulio amser hamdden o bell ffordd, mae eu brwdfrydedd yn ganolog i'r ymdrech i achub ac adfer milltiroedd lawer o gamlesi mewn degawd o ddirwasgiad ac mewn degawd nad oedd yn rhoi fawr o werth ar dreftadaeth.

1980au

POSIBILIADAU ADFYWIO

> Yn y 1980au cynnar, cynyddodd nifer y cychod hamdden i dros 20,000 am y tro cyntaf

> Erbyn canol y 1980au, roedd y gwaith llwyddiannus o ailddatblygu Brindley Place yn Nociâu Birmingham a Llundain wedi helpu i newid agweddau tuag at y dyfrffyrdd

> Ym 1989, gwelodd English Heritage fwlch yn y sgiliau ar gyfer gwaith cadwraeth y dyfrffyrdd, gan ddweud: "Mae crefftwaith gwael a deunyddiau amhriodol wedi difetha golwg llawer o strwythurau hanesyddol... nid yw swyddogion Dyfrffyrdd Prydain yn cael hyfforddiant digonol ac nid oes neb i roi cyngor proffesiynol ar gadwraeth strwythurau hanesyddol iddynt"

1990au

HWB GAN Y LOTERI

> Mae gwerth y dyfrffyrdd yn cael ei gydnabod fwyfwy. Mae ymchwil yn dangos bod gwerth eiddo gerllaw dyfrffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda hyd at 20% yn fwy

> Cafwyd cais llwyddiannus am gynnydd mewn buddsoddiad er mwyn goresgyn ôl-ddyledion sylweddol ar gyfer cynnal a chadw'r camlesi ac ym 1999 cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog fod mwy o gymorth ac arian ar gael

> Erbyn diwedd y 1990au, mae cynlluniau adfer y dyfrffyrdd yn cynyddu wrth i gymorth a grantiau cymunedol gan y Loteri Genedlaethol eu galluogi i gwblhau gwaith datblygu mwyaf y rhwydwaith mewn 150 o flynyddoedd...

MILENIWM NEWYDD - OES AUR AM YR EILDRO

Roedd y ddegawd ddiwethaf yn un o lwyddiant mawr.

Mae'r hen dyfrffyrdd gwenwynig a difywyd bellach yn gynefinoedd gwerthfawr i rai o'n hanifeiliaid a'n planhigion mwyaf prin. Mae'r hen gamlesi a oedd dan glo ac ynghudd y tu ôl i waliau uchel bellach ar agor i bawb. Mae'r hen dreftadaeth a oedd unwaith 'mewn perygl' bellach yn cael ei thrysori, ac mae'r hen seilwaith a oedd unwaith yn simsan bellach wedi'i ddiogelu gan waith peirianeg sylweddol. Heddiw mae gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio'n ofalus, yn sicrhau y gall miliynau o bobl fwynhau'r dyfrffyrdd bob blwyddyn.

BUDDSODDI YN Y 'TRAC'

- > Gwario dros £1 biliwn yn ystod y degawd ar waith cynnal a chadw wedi'i dargedu
- > Newid dros 2,000 o ddalenni unigol ar lifddorau
- > Gwaith uwchraddio sylweddol i 90 o gronfeydd y dyfrffyrdd
- > Trwsio llawer o'r 700 o'r prif argloddiau er mwyn mynd i'r afael â dŵr yn gollwng a gwella sefydlogrwydd
- > Gwario £66 miliwn ar garthu
- > Monitro a chynnal a chadw bron 2,000 o gwiferi a 125 o filltiroedd o ledgamlesi wedi'u rheoli
- > Trwsio diffygion sylweddol, fel y bylchau ar Gamlesi Sir Fynwy a Brycheiniog, Stourbridge a Caldon
- > Nifer y strwythurau dyfrffordd sydd yn y cyflwr gwaethaf yn lleihau o 31% i 19%

GOFALU AM DREFTADAETH DYFRFFYRDD

- > Strwythurau treftadaeth sydd mewn perygl yn lleihau o 125 ar ddechrau'r degawd i 44
- > Traphont ddŵr Pontcysyllte yn ymuno a'r Taj Mahal a'r Acropolis fel Safle Treftadaeth y Byd
- > Dyfrffyrdd Prydain yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan English Heritage am ei sgiliau cadwraeth
- > Fel rheol dros 300 o weithfeydd yn cael eu gwneud bob blwyddyn i strwythurau treftadaeth dynodedig cyfreithiol gyda chofnod cydymffurfio â materion cadwraeth 99%

CYFRI'R CEINIOGAU

- > Wrth i arian y llywodraeth leihau 42% mewn termau real, mae refeniw a gynhyrchir gan y dyfrffyrdd (trwy rent eiddo, fforddfraint ac incwm hamdden) yn cynyddu o £62 miliwn i £101 miliwn gan ariannu atgyweiriadau hanfodol i'r dyfrffyrdd
- > Gwerth cyfalaf ystadau eiddo Dyfrffyrdd Prydain yn gwneud yn well na'r sector yn gyson, gan gynyddu £200m.
Erbyn hyn, mae'n waddol ariannol pwysig i ddyfodol y rhwydwaith
- > Ceisiadau creadigol a phoblogaidd wedi llwyddo i ennill £300 miliwn gan y Loteri, yr Awdurdodau Lleol ac Ewrop ar gyfer y dyfrffyrdd

> Y dyfrffyrdd yn denu gwerth miliynau o waith gan eraill fel awdurdodau lleol, i roi wyneb newydd ar lwybrau tynnu, uwchraddio cyfleusterau ymwelwyr a gwarchod bywyd gwylt

AR DROTHWY'R DRWS

> 13 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn

> Cychod trwyddedig yn cynyddu o 25,000 i 35,000 – mae bellach mwy o gychod na phan oedd y Chwyldro Diwydiannol ar ei anterth

ASED AMGYLCHEDDOL

> Ansawdd dŵr yn parhau i wella gyda llygod y dŵr, dyfrgwn a Glas y Dorlan yn cynyddu mewn nifer

> Dyfrffyrdd Prydain yn gwireddu potensial y dyfrffyrdd ar gyfer ynni gwynt, microgynhyrchu ac yn opsiwn mwy cynaliadwy yn lle gwresogi ac oeri traddodiadol.

YMESTYN Y RHWYDWAITH

Mae 200 milltir o ddyfrffyrdd newydd a dyfrffyrdd wedi'u hadfer wedi'u hychwanegu at rwydwaith Dyfrffyrdd Prydain, sydd bellach yn 2,200 milltir i gyd. Ar un cyfnod roedd y rhwydwaith yn ehangu'n gynt nag yr oedd ar anterth y Chwyldro Diwydiannol.

2001

> Caeredin i Glasgow – Cyswllt y Mileniwm (agorwyd yn 2002 gan Ei Mawrhydi y Frenhines)
> Camlas Gul Huddersfield

2002

> Camlas Rochdale
> Cyswllt Ribble y Mileniwm
> Liff t cychod Anderton

2007

> Ymestyn Camlas Maldwyn i Gowan

2008

> Cyfnod Un Camlas Manceinion, Bolton a Bury

2009

> Afonydd Bow Back
> Cyswllt Camlas Lerpwl

2010/11

> Camlas Cychod Droitwich a Chamlas Cyffordd Droitwich

Y 200 MLYNEDD NESAF

Er bod y rhwydwaith yn mwynhau oes aur am yr eildro – sefyllfa na ellid ei dychmygu ugain mlynedd yn ôl – mae'n rhaid i rwydwaith hynafol a drud gael cynllun ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Yn 2009, mae Dyfrffyrdd Prydain wedi ailgynnau dadl a

ddechreuodd bron hanner canrif yn ôl ynglŷn â dadwladoli'r rhwydwaith a'i roi dan reolaeth 'ymddiriedolaeth genedlaethol'.

Mae yna frwdfrydedd cyffredinol am wirfoddoli gyda'r dyfrffyrdd. Mae hynny wastad wedi bod yn wir, ers i wirfoddolwyr ymroddgar ddechrau adfywio'r camlesi yn gynnar yn yr 20fed ganrif, ond ni fanteisiwyd i'r eithaf ar y brwdfrydedd hwn hyd yma. Bydd yr elusen ddyfrffyrdd newydd yn cynnwys amrywiaeth wych o gyfleoedd gwirfoddoli cyffrous – o swyddi llywodraethu i waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd, dyletswyddau cadw lociau eiconig, addysg a hyd yn oed darparu cymorth peirianyddol a chymorth proffesiynol arall.

Y DYFODOL

- ELUSEN DDYFRFFYRDD NEWYDD

Yn 2012, bydd elusen newydd gyffrous yn dod yn gyfrifol am warchod camlesi, afonydd, cronfeydd dŵr a dociau Dyfrffyrdd Prydain yng Nghymru a Lloegr. Bydd Scottish Waterways yn dal yn parhau'n eiddo cyhoeddus.

Symud i statws elusennol fydd y bennod nesaf yn adfywiad y dyfrffyrdd a newid a fydd yn helpu i ddiogelu'r rhwydwaith at ddefnydd a mwynhad cenedlaethau'r dyfodol.

Trwy ddod yn elusen, bydd camlesi ac afonydd hanesyddol Prydain yn gallu ehangu a chryfhau eu cyllid. Bydd y newid hefyd yn rhoi mwy o gyfle i'r llu o bobl a chymunedau sydd am gynorthwyo a bod yn rhan o'u camlas leol.

Erbyn 2015, nod y Llywodraeth, a bod arian ar gael, yw sicrhau y bydd 600 milltir arall o ddyfrffyrdd sy'n cael eu rheoli gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd, yn cynnwys Afon Tafwys a Medway, yn ymuno â'r elusen newydd gyffrous hon.

AR GARREG EICH DRWS

Mae 'ymddiriedolaeth genedlaethol' i'r dyfrffyrdd yn newyddion da i'r miloedd lawer sy'n byw wrth ymyl camlesi ac afonydd, yn cerdded neu'n rhedeg yn rheolaidd ar hyd y llwybrau tynnu neu'n hamddena trwy fwydo'r hwyaid neu fwynhau bywyd gwyllt. Mae yna frwdfrydedd cyffredinol am y syniad ymysg rhanddeiliaid allweddol fel perchnogion cychod, pysgotwyr a'r rhai sy'n ymddiddori yn nhreftadaeth y dyfrffyrdd. Yn ymestyn o Lundain i Gaerhirfyn ac o Gymru i'r Wash, mae rhwydwaith dyfrffyrdd mwy cynaliadwy yn hanfodol i'r cannoedd o fusnesau dyfrffyrdd a'r sefydliadau dinesig niferus sy'n dibynnu arno.

DYFODOL CYNALIADWY

Bydd yr elusen newydd yn derbyn cymorth ariannol hanfodol gan y llywodraeth trwy drosglwyddo asedau eiddo Dyfrffyrdd Prydain ac er gwaethaf yr amgylchiadau anodd o ran gwariant cyhoeddus, bydd y llywodraeth yn rhoi cytundeb ariannu hirdymor i'r elusen yn gyfnewid am waith bob dydd rhagorol sydd o fudd i'r cyhoedd. Bydd yr elusen hefyd yn cael cyfleoedd newydd i helpu i gau'r bwlch cyfredol yn yr arian sydd ei angen ar gyfer rhwydwaith dyfrffyrdd sy'n heneiddio ac yn denu mwy a mwy o bobl o hyd. Bydd yn derbyn incwm gan wirfoddolwyr, yn cael mwy o ryddid masnachol, yn cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ac yn sicrhau bod holl arbedion y dyfodol yn arwain at welliannau i lannau'r camlesi.

O fewn deng mlynedd, efallai y gwelwn ni 100,000 o gefnogwyr rheolaidd yn cyfrannu tua £6 miliwn mewn rhoddion, apeliadau a chymynroddion.

EIN GWELEDIGAETH

Mae diben cyfreithiol yr elusen ac enw'r elusen newydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus gan y llywodraeth. Fodd bynnag, bydd yn cyfleu'r ffaith bod y dyfrffyrdd yn perthyn i bawb ohonom ac y dylid eu mwynhau heddiw a'u gwarchod ar gyfer y dyfodol. Bydd yn pwysleisio bod y dyfrffyrdd yn rhan o'n cymunedau lleol, o'n hanes a'n hunaniaeth ddiwylliannol, eu bod yn lle i'r enaid gael llonydd ac yn hafan i fywyd gwyllt a phobl mewn byd sydd fel arall yn brysur ac yn llawn straen.

PAM NAWR?

Roedd gwladoli'n iawn ar adeg pan oedd cymdeithas wedi troi ei chefn ar rwydwaith trafniadaeth hen ffasiwn heb fawr o ddefnydd. O dan warchodaeth Dyfrffyrdd Prydain, mae cyflwr y dyfrffyrdd wedi gwella'n sylweddol ond mae llai o arian ar gael o bwrs y wlad erbyn hyn – gyda'r toriadau diweddar mewn gwariant cyhoeddus yn dwysáu hyn yn sylweddol. Mae llawer wedi'i gyflawni a dylai llawer o bobl ymfalchïo yn eu hymdrechion.

Gweledigaeth Dyfrffyrdd Prydain yw cael y dyfrffyrdd allan o'r cylch byrdymor hwn i sefyllfa fwy diogel gyda chynllun hirdymor.

Mae'r rhwydwaith mewn sefyllfa lle gall hyn ddigwydd a thrwy fanteisio ar yr ewyllys wleidyddol bydd symud i statws elusennol yn gwireddu'r uchelgais a fu gan lawer o gefnogwyr y dyfrffyrdd am dros hanner canrif. Mae'r newid yn nodi dechrau'r 200 mlynedd nesaf o hanes cyffrous y dyfrffyrdd a bydd yn dangos beth arall sy'n bosibl ei gyflawni pan fo cymuned yn cael rhagor o gyfle i werthfawrogi ei dyfrffyrdd a buddsoddi ynddynt.

MAP DYFRFFYRDD

Allwedd

GRADDFA
50 Cilometr
30 milltir

Rheolwyd gan Ddyfrffyrdd Prydain yr Alban
Rheolwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd
Rheolwyd gan Ddyfrffyrdd Prydain

Mae'r map hwn yn cynnwys dyfrffyrdd a reolir gan aelodau o Gymdeithas Awdurdodau Mordwyo Mewndirol (AINA). Mae dyfrffyrdd mewndirol eraill nad ydynt wedi'u cynnwys, ond y gellir dod o hyd iddynt ar fapiau manylach (cysylltwch â Chanolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Dyfrffyrdd Prydain ar **01923 201120** am fwy o wybodaeth). © Dyfrffyrdd Prydain 2011

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron, 2011 Arolwg Ordnans 100019843.
Tirnod 100022432. © Next Perspectives, 2011

Mae map manwl ar gael yn
www.waterscape.com/waterwaymap

“Rwyf wedi fy argyhoeddi gan y weledigaeth gadarn o gael ymddiriedolaeth genedlaethol ar gyfer y dyfrffyrdd.”

Richard Benyon, Is-ysgrifennydd Seneddol ar gyfer Amgylchedd Naturiol a Physgodfeydd

“Pan gyhoeddodd y llywodraeth ar 14 Hydref 2010 eu bwriad i drosglwyddo dyfrffyrdd Cymru a Lloegr i fod yn gorff elusennol newydd, roedd yn benllanw 18 mis o waith caled a chryn berswâd gan nifer fawr o bobl. Roedd yn sêl bendith rhagorol i'r strategaeth hon ac i weledigaeth a roddwyd gerbron dros 50 mlynedd yn ôl a dylem oll fod yn hynod falch.”

Robin Evans, Prif Weithredwr

"Nod Dyfrffyrdd Cymru yw codi fel ffenics yn y trydydd sector yn elusen sy'n cymharu â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i gynrychioli 2,200 o filltiroedd o gamlesi ac afonydd y gellir eu tramwyo"

The Guardian, Hydref 2010

"Am eu gwerth therapiwtig yn bennaf y dylid hyrwyddo camlesi. Mae pawb sy'n tramwyo'u glannau a'u dyfroedd yn gwybod am eu hud a'u lledrith. Mae llonyddwch cefn gwlad Lloegr yn sleifio'n dawel i ganol bwrlwm prysur y dinasoedd. Mae miliynau eisoes yn gwybod am y byd dirgel hwn, ond mae miliynau mwy heb ei brofi o gwbl. Os oes angen creu ymddiriedolaeth genedlaethol i ddatgelu'r byd cyfrin hwn, rwy'n gwbl gefnogol i'r fenter."

The Times, prif awdur diwylliant, Mai 2009

Cofrestrwch i gael y wybodaeth ddiweddaraf am elusen dyfrffyrdd newydd Prydain yn

www.waterscape.com/findoutmore

MAE ELUSEN DYFRFFYRDD NEWYDD AR Y GWEILL...

Yn 2012, bydd y 2,000 o filltiroedd o ddyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr yn newid o fod yn gorff cyhoeddus i fod yn elusen newydd.

13^{eg} incwm elusennol mwyaf yn y DU*

Ymhen 10 mlynedd, rhagwelir y bydd cyfanswm ein cefnogwyr cyson tua **100,000**

24^{ain} elusen fwyaf yn y DU yn ôl asedau*

£6 miliwn mewn cyfraniadau gwirfoddol erbyn blwyddyn 10

***Gwefan Charities Direct Gorffennaf 2009**

CYMRYD RHAN – hoffech chi gael cyfle i wirfoddoli ar eich camlas neu afon leol?

Ewch i www.waterscape.com/volunteer i ddarllen am brofiad gwirfoddolwyr eraill ac i ddod o hyd i gyfleoedd yn eich ardal leol. Gallwch chwilio yn ôl y cod post neu'r math o dasg sydd o ddiddordeb i chi neu bori trwy'r rhestr gyflawn.

Os oes gennych gwestiwn cyffredinol, ewch i volunteer@britishwaterways.co.uk

Fersiwn cyfrwng Cymraeg i'w chael ar www.britishwaterways.co.uk/annualreport

British Waterways 64 Clarendon Road Watford WD17 1DA

Ffôn 01923 201120 **Ffacs** 01923 201400 **E-bost**

enquiries.hq@britishwaterways.co.uk

www.britishwaterways.co.uk/annualreport

Dilynwch ni ar Twitter **@waterscape.com**

Ymunwch â'r dudalen grŵp Waterscape swyddogol ar Facebook

Dyluniwyd gan **Honey Creative**

Argraffwyd gan **GPEX**

Gorffennaf 2011